**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Menter: Darpariaethau yn ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach**

1. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn pennu bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Seneddol y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n ei addasu.

2. Cyflwynwyd y Bil Menter (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 16 Medi 2015. Gellir gweld y Bil yn:

   http://services.parliament.uk/bills/2015-16/enterprise.html

**Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ("BIS"). Y prif amcanion a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

   - Cadarnhau safle'r DU fel y lle gorau yn Ewrop i gychwyn a thyfu busnes, drwy leihau biwrocratiaeth a gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfodau yn gyflym a hwylus; a

   - Gwobrwyo entrepreneuriaeth, creu swyddi a chyflogau uwch i bawb a chynnig cyfle i bobl yn ystod pob cyfnod o'u hoes.

4. Mae naw rhan i'r Bil:

   - mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth i sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach;

   - mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer estyn y Targed Effaith Busnes drwy gynnwys rheoleiddwyr ynddo, ac yn cynorthwyo newid yn y modd y cyflawnir rheoleiddio gan reoleiddwyr drwy'r Ddyletswydd Twf a'r Cod Rheoleiddwyr;

   - mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer symleiddio'r Cynllun Awdurdodau Sylfaenol;

   - mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau sy'n cyflwyno targed ar gyfer cyfanswm nifer y prentisiaid sy'n gweithio mewn cyrff sector cyhoeddus ac yn rhwystro camddefnyddio'r term 'Prentisiaeth';

   - mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth sy'n cyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i dalu hawliadau yswiriant o fewn cyfnod rhesymol;

- mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio (“y VOA”) a llywodraeth leol, am drethdalwyr ardrethi annomestig a’u heiddo, ac ar gyfer diwygio’r system apelau ardrethi annomestig;

- mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau sy’n diweddaru Deddf Datblygu Diwydiannol 1982;

- mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau ar gyfer capio taliadau ymadael i weithwyr yn y sector cyhoeddus; ac

- mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau cyffredinol ynglŷn â diwygiadau canlyniadol a throsiannol a darpariaethau arbed a chychwyn.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

5. Y ddarpariaeth y ceisir cydsyniad ar ei chyfer yw:-

| **Rhan o’r Bil** | **Cymalau yn y Bil** | **Crynodeb** |
|---|---|---|
| Rhan 1 – Comisiynydd Busnesau Bach | Cymalau 1 i 12 | Creu Comisiynydd Busnesau Bach, i alluogi busnesau bach i ddatrys anghydfodau gyda busnesau mwy ac atal anghydfodau yn y dyfodol. |

6. Mae’r ddarpariaeth yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**<u>Cymalau 1 – 12 o’r Bil Menter</u>**

7. Bydd cymal 1 yn sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach yn y DU, i ymgymryd â’r prif swyddogaethau canlynol: darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol i fusnesau bach; ystyried cwynion gan fusnesau bach ynghylch anghydfod rhyngddynt a busnesau mawr ynglŷn â thaliadau; a gwneud argymhellion. Mae cymal 2 yn diffinio ystyr busnes bach at ddibenion y Bil, ac yn rhoi pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol amrywio’r diffiniad hwnnw.

8. Mae cymal 3 yn rhoi i’r Comisiynydd Busnesau Bach y pŵer i ddarparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol i fusnesau bach ynglŷn â’u perthynas â busnesau mwy ynglŷn â chyflenwi. Gall y cyngor a’r wybodaeth a ddarperir gynnwys egwyddorion cyfraith contractau, a hawliau neu rwymedigaethau mewn perthynas â chyflenwi nwyddau neu wasanaethu, yn ogystal â gwybodaeth am bersonau eraill megis ombwdsmyn, cyrff trin cwynion a rheoleiddwyr a allai helpu i ddatrys anghydfodau. Gwneir yn ofynnol bod y Comisiynydd Busnesau Bach yn gweithredu’n ddiduedd, ac yn cydweithio ag eraill pan fo trydydd partïon yn cyhoeddi neu’n darparu’r wybodaeth honno.

9. Mae cymalau 4 i 8 yn darparu bod rhaid i’r Comisiynydd Busnesau Bach sefydlu cynllun cwynion (cymal 4) y bydd y Comisiynydd yn ymchwilio i “gwynion perthnasol” ac yn eu hystyried a’u penderfynu oddi tano. Cwynion perthnasol yw’r rhain a wneir gan fusnesau bach ynglŷn â’r berthynas gyflenwi a thalu rhwng busnes bach a busnes mwy (cymal 4). Ni fydd canlyniad y broses cwynion yn rhwymo yn gyfreithiol (cymal 5), a chaiff y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymchwiliad i’r gŵyn, ar ôl rhoi cyfle i’r achwynydd a’r ymatebydd wneud sylwadau ynglŷn â chyhoeddi’r adroddiad. Mae cymal 7 yn pennu’r materion y mae’n rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth wneud y rheoliadau. Mae cymal 7 hefyd yn cynnwys y dyletswyddau a osodir ar y Comisiynydd i ystyried a phenderfynu cwynion. Mae cymal 8 yn pennu rheolau cyfrinachedd a’r amgylchiadau pan ganiateir datgelu gwybodaeth.

10. Mae cymal 9 yn ymdrin â’r gofyniad bod y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. Rhan o’r broses honno fydd paratoi crynodeb o’r materion mwyaf arwyddocaol a godwyd gan fusnesau bach, ac argymhellion gan y Comisiynydd ar sut y dylid ymateb iddynt. Mae cymal 10 yn pennu bod rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol adolygu perfformiad y Comisiynydd, sef, yn benodol, pa mor effeithiol y bu’r Comisiynydd wrth gyflawni ei swyddogaethau, asesu’r effaith o ran gwella trafodiadau masnachol ac ymwybyddiaeth y busnesau bach o’r gweithdrefnau ar gyfer datrys anghydfodau.

11. Mae cymal 11 yn rhoi pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu swydd y Comisiynydd, ac mae cymal 12 yn cynnwys yr adran ddiffiniadau.

12. Nid yw’r darpariaethau uchod yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

13. Ym marn Llywodraeth Cymru,  mae’r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r graddau y maent yn ymwneud â “hyrwyddo busnes a chystadleurwydd”, sef pwnc a ddatganolwyd i’r Cynulliad yn rhinwedd paragraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

14. Gan mai diben cyffredinol y Comisiynydd Busnesau Bach yw cynorthwyo busnesau bach (a hynny gan roi sylw i’r amcanion polisi ar gyfer y Bil), gellir honni ei fod yn ymwneud â hyrwyddo busnes a chystadleurwydd, ac y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth gyffelyb mewn perthynas â busnesau bach yng Nghymru.

15. Mae’r safbwynt hwn yn gyson â’n hymateb mewn cysylltiad â Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015, a oedd yn cynnwys gofyniad bod busnesau yn cyhoeddi gwybodaeth am arferion talu a pholisïau ynglŷn â hyrwyddo busnes a chystadleurwydd, gan wneud MCD yn angenrheidiol

## Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth Cynulliad

16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn, gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau mewn perthynas â Chymru, oherwydd:-

a) Ystyrir bod swyddogaethau'r Comisiynydd yn wahanol, ond yn ategol, i'r swyddogaethau a gyflawnir o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a busnes, a'r cyngor a roddir ganddi i fusnesau.

b) Byddai cymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru yn sicrhau triniaeth gyfartal i Gymru o gymharu â gweddill y DU. Hwn fyddai'r dewis gorau, er enghraifft, pe bai'r busnes bach wedi ei leoli yng Nghymru ond y busnes mawr yn rhywle arall o fewn y DU. Ystyrir y byddai gweithredu dull sy'n gymwys ledled y DU yn fanteisiol yn y cyd-destun hwn.

## Goblygiadau ariannol

17. Ein dealltwriaeth yw mai Llywodraeth y DU a fydd yn cyflawni'r cynigion hyn i sefydlu'r Comisiynydd a'i swyddfa, ac o ganlyniad, na fydd unrhyw oblygiadau o ran cost i Lywodraeth Cymru pe cytunid i'r cynigion hyn.

**Mrs Edwina Hart MBE CStJ AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth Thrafnidiaeth**
**Hydref 2015**